

Cofnodion Cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Hydref 15fed 2017 am 7.30 o'r gloch.

Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 15th October 2017 at 7.30pm

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd/ *Chairperson*), Hanna Elin Baguley, Myrddin Roberts, Barbara Williams, Miriam Williams, Lorna Williams, Alwena Roberts, Geraint Parry (Clerc/*Clerk*) a Cyng. Lewis Davies.

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Bethan Williams a Maldwyn Williams.

3. Datgan Ddiddeu/Declaration of interest

- Cyng. Myrddin Roberts a Cyng. A Roberts yn datgan diddeu ar eitem 13.2 drafodaeth gyfraniad tuag at gynnal a chadw mynwentydd Eglwysi St Dona ac St Iestyn - aelodau'r Eglwysi / *Clr. Myrddin Roberts and Clr. Alwena Roberts declared an interest on item 13.2 discussion on the contribution towards the maintenance of cemeteries of St Dona and St Iestyn - members of the Church.*
- Cyng. Rhian Hughes yn datgan diddeu ar eitem 13.5 drafodaeth yr Hen Ysgol, oherwydd ei bod yn aelod o Pwyllgor y Neuadd / *Clr. Rhian Hughes declared an interest on item 13.5 discussion about the Old School - member of the Village Hall Committee.*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed o Medi fel rhai cywir gan Miriam Williams, eilwyd gan Hana Elin Baguley / *Minutes of the previous meeting held on 20th September were accepted as accurate by Miriam Williams, seconded by Hana Elin Baguley*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Diffibrilwyr / Defibrillator** - Clerc wedi trafod y mater gyda pherchennog y tir, sy'n ceisio cael cyngor gan ei gyfreithiwr. Cyng. R Hughes i drefnu hyfforddiant i ddefnyddio'r offer / *Clerc has discussed the matter with the land owner, who is seeking advice from his solicitor. Clr. R Hughes to arrange training to use the equipment*
- 5.2 **Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** - dim gwybodaeth bellach hyd yn hyn / *No further information to date.*
- 5.3 **Lôn Hafoty a thyllau ar lonydd lleol / Hafoty Road and holes on local roads** - Nodwyd bod rhai o'r manau pasio wedi'u hatgyweirio a bod gwaith pellach i'w wneud. Adroddwyd bod Cyng. Alun Roberts wedi trafod y mater gydag Adran Briffyrdd / *It was noted that some of the passing places have been repaired and that further work is to be carried out. Clr. Alun Roberts has discussed the matter with the Highways Department.*
- 5.4 **Llwybr Tai Bach / Tai Bach Footpath** - Mae'r Cyngor Sir mewn trafodaeth gyda'r ddau berchennog ynglŷn â llwybr troed a chyfrifoldeb y bibell / *The County Council is in discussions with both residents regarding the footpath and responsibility of the pipe.*
- 5.5 **Gwasanaeth Bysiau 53/57/58 / Bus Services 53/57/58** - amserlen newydd yn dod i rym ym mis Hydref / *new bus timetable is taking effect in October*
- 5.6 **Llwybrau / Footpaths - Tŷ Newydd** - Swyddog o'r Cyngor Sir mewn trafodaeth ar dirfeddiannwr. **Tan Fynwent** - mae'r Cyngor Sir wedi cynnig torri'r llwybr troed hwn unwaith yn unig a bod y Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb am ei gynnal ar ôl hynny. / **Tŷ Newydd** - *Officer from the County Council is in discussion with the landowner. Tan Fynwent - the County Council have offered to cut this footpath as a one off with the Community Council taking responsibility for maintaining it after.*
- 5.7 **Hen Ysgol** - mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i dorri coed ger mynedfa i'r maes chwarae / **Old School** - *the County Council have agreed to cut the trees by the entrance to the playground*
- 5.8 **Cyfarfod Un Llais Cymru 5/10/17** - derbyniwyd adborth gan Cyng. H Baguley a Cyng. M Roberts / **One Voice Wales meeting 5/10/17** - *received feedback from Clr. H Baguley and Clr. M Roberts*

6. Adroddiad gan y Cyngorwyr Sir/Report by the County Councillor

- 6.1 Esboniodd Cyng. Davies ei bryder ynglŷn â'r Cynllun Gofal Ychwanegol arfaethedig ar safle Ysgol Biwmares. Gallai'r cynnig hwn cael effaith mawr ar Cartref Preswyl Haulfre. Yn bwysicach mae angen tai cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion y genhedlaeth iau / *Clr. Davies explained his concern regarding the proposed Extra Care Scheme for the Beaumaris School site. This proposal could impact on Haulfre Residential Home. More importantly the local area desperately needs social housing in order to meet the needs of the younger generation*

- 6.2 Tŷ Pren ger Sŵn y Môr - wedi adrodd hyn i'r Swyddog Gorfodaeth a gofyn iddynt ymweld â'r safle / *Wooden Chalet by Swn y Môr - have reported this to the Enforcement Officer and requested they visit the site*
- 6.3 Ymgynghoriad Ysgolion Ward Seiriol - derbyniwyd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cytunwyd dau argymhelliaid, ac mae'r ddau yn cynnwys cau Ysgol Biwmares. Bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 30/10/17 / *Ward Seiriol School Consultation - a number of responses were received. Two recommendations were put forward and both include the closing of Beaumaris School. The proposal will be presented to the Executive Committee on the 30/10/17*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

Dim cais cynllunio i drafod / *No planning application to discuss*

Er gwybodaeth / Information

- 22C237 - Cais llawn ar gyfer codi annedd newydd ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir yn Pen y Bont – wedi ei wrthod / *Full application for the erection of a new dwelling together with the construction of a new vehicular access at Pen y Bont – has been refused.*

8. Fynwent Llaniestyn / Llaniestyn Cemetery

- Contractwr wedi bod ar y safle i gwblhau'r gwaith / *Contractor have been on the site to complete the work*
- Trafodwyd a chytunwyd manylion a thaliadau'r fynwent / *Discussed and agreed the charges for the cemetery*

9. Tir Comin/Common Land

- 9.1 Comin Llaniestyn / *Llaniestyn Common Land* (01/17) - **Ty Ben** - mae ffrind perchennog Tŷ Ben wedi bod mewn cysylltiad a bydd yn trefnu cyfreithiwr. **Difrod i Dir Comin** - Disgwyl gwybodaeth bellach oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn destun pryder mawr i'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â diogelwch i blant / **Tŷ Ben** -*Friend of the owner of Tŷ Ben has been in touch and will arrange a solicitor. Damage to Common Land - Awaiting further communication from from Natural Resources Wales. This is a major concern to the Community Council in respect of safety to children*
- 9.2 Tir Comin ger 1 Pensarn / *Common Land by 1 Pensarn* – gwybodaeth yn nwylo ein cyfreithiwr / *information is in the hands of our solicitor*
- 9.3 Cyngor Sir wedi agor draen ger Glyndŵr - Cyngor Sir wedi cadarnhau nid oedd angen cais am yr hawddfraint ar gyfer y gwaith hwn gan ei fod yn rhan o argyfwng i ddisodli'r bibell oedd wedi cwmpo sy'n rhedeg o dan Tŷ Nant. Maent wedi dargyfeirio'r draen o gwmpas Tŷ Nant i'r tir comin ac yn ôl i'r cae cyfagos / *County Council has opened a drain by Glyndŵr - The County Council have confirmed they did not need to apply for an easement for this work as it was part of an emergency to replace the collapsed pipe that runs under Ty Nant. They have diverted the drain around Ty Nant onto the common land and back into the nearby field.*
- 9.4 Tir comin ger Tre Gof - derbyniwyd ateb gan ddeiliad y tŷ, lle maent yn egluro eu pryder am ein cais i gael symud y cerrig. Eglurodd Cyng. R Hughes y cefndir i'r cam yma. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc egluro'r rheswm tu ôl i'r cais i'r perchennog / *Common land by Tre Gof - received a reply from the householder explaining their concern by our request to remove the stones. Clr. R Hughes explained the background to this action. It was decided to ask the Clerk to explain the reason behind the request.*
- 9.5 Difrod gan gwmni Hogan i dir Comin Llaniestyn, maent bellach wedi cytuno i drafod y gwaith atgyweirio gyda'r Cyngor Sir / *Damage by Hogan's to the Common Llaniestyn, they have now agreed to discuss the repair work with the County Council.*

10. Cod Ymddygiad / Code of Conduct

- 10.1 Cynigwyd y dyddiadau hyfforddi ar gyfer y Cod Ymddygiad gan y Cyngor Sir. Clerc i gylchredeg. / *Training dates for the Code of Conduct has been offered by the County Council, Clerk to circulate.*
- 10.2 Yn dilyn cais gan Bwyllgor safonau'r Cyngor Sir i adolygu'r gofrestr o ddi-ddordebau, rhannodd y Clerc yr adroddiad gyda'r aelodau yn manylu ei casgliadau / *Following a request by the Standards Committee of the County Council to review register of members interest, the Clerk shared the report with all the members detailing their findings.*

11. Cyfrifon/Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- I Roberts – torri llwybrau cyhoeddus / *Cutting public footpaths - £1,700*

- I Roberts – ffensio cae peldroed / *Fencing football field* - £360.00
Incwm a Gwariant / Income and expenditure
- Eglurodd y Clerc yr incwm a gwariant hyd at ddiwedd mis Medi / *Clerk explained the income and expenditure as at the end of September*
Awdit 2016/17
- Clerc wedi derbyn cyngor bod y ffi a chodwyd yn seiliedig ar fandio a'r gwaith sy'n gysylltiedig yn ystod y broses archwilio / *Clerk has received advice that the audit fee is based on a banding and the work involved during the audit process*
- Gwerth asedau sefydlog – Clerc i drafod y mater gyda'n darparwr Yswiriant newydd / *Value of fixed assets - Clerk to discuss the matter with our new Insurance provider*

12. Gohebiaeth/Correspondence

- Llythyr / *Letter* – gyfraniad Eglwysi / *Church contribution*
- Swyddfa Cofrestru - Hen Ysgol / *Land Registry - Old School*
- Cyngor Sir – Cod Ymddygiad / *County Council - Code of Conduct*
- Arolwg Etholaethau Seneddol 2018 / *Review of Parliamentary Constituencies 2018*

13. UFA/AOB:

- 13.1 Cyng. R Hughes yn gofyn am awgrymiadau i leihau'r cofnodion. I'w drafod ymhellach / *Clr. Rhian Hughes asked for suggestions to shorten the minutes. To be discussed further.*
- 13.2 Derbyniwyd cais am gyfraniad tuag at gynnal a chadw mynwentydd Sant Dona a Sant Iestyn - cynigwyd ac eiliwyd i ofyn am gopi o'r fantolen. Hefyd cynigwyd gan Cyng. H Baguley ac eiliwyd gan Cyng. B Williams i'r swm o £550 / *Received a request for a contribution towards the maintenance of the cemeteries of St Dona and St Iestyn - it was proposed and seconded to request a copy of the balance sheet. It was also proposed by Clr. H Baguley and seconded by Clr. B Williams to the amount of £550.*
- 13.3 Cyng. R Hughes wedi mynychu cyfarfod grŵp Seiriol mis diwethaf lle oedant yn trafod y posibilrwydd greu tua 40 uned ar gyfer cynllun Gofal Ychwanegol ar safle Ysgol Biwmares. Trafodaeth hefyd ynglŷn â defnydd a bwcio'r Bws Mini'r Canolfan Hamdden / *Clr. R Hughes attended a meeting of Seiriol Group last month, were they discussed the possibility of creating 40 units for the Extra Care scheme on the site of the Beaumaris School. Discussion also took place regarding the use and booking of the Minibus at the Leisure Centre.*
- 13.4 Derbyniwyd hysbysiad i berchennog tir cyfagos cofrestrriad arfaethedig gan y Swyddfa Gofrestru Tir gan y Cyngor Sir i gofrestru tir yr Hen Ysgol. Esboniodd Cyng. R Hughes bod y cytundeb gwaharddiad rhwng Pwyllgor Neuadd y Pentref a'r Cyngor Sir yn dod i ben diwedd mis Hydref. Cyn hynny, mae Pwyllgor y Neuadd yn gobeithio derbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â chais am yr Hen Ysgol. Esboniodd Cyng. M Roberts y cefndir hanesyddol i'r tir yma. Penderfynwyd yn unfrydol i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau a gofynnwyd ar yr ohebiaeth a gofyn pwy sy'n berchen ar dir cyffiniol. / *Received a notice to an adjoining owner of a proposed registration from the Land Registry by the County Council to register the land of the Old School. Clr. R Hughes explained that the exclusivity agreement between the Village Hall committee and the County Council expires at the end of October. Prior to this, the VH committee hope to receive the decision from the Welsh Government regarding application for the the Old School. Clr. M Roberts explained the historical background to this land. It was unanimously decided to request an extension to the deadline proposed on the correspondence and ask who owns the adjoining land.*
- 13.5 Clerc i ddiweddarau gwefan y Cyngor Cymuned / *Clerk to update the Community Council website*
- 13.6 Derbyniwyd amcan gyfrif ar gyfer cael gwared â'r llyisiau'r dial - gytunwyd yr amcangyfrif / *Received estimate for the removal of the Japanese Knotweed - estimate agreed.*
- 13.7 Trafodwyd y cais i Benodi Pencampwyr Iaith Cymraeg / *Discussed the request for Appointing Welsh Speaking Champions*

14. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:50 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 15/11/17 am 7.30 yn Capel Peniel.
There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:50pm. Next meeting to be held on 15/11/17 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad